


Controlling pneumonia in cattle



The graph illustrates the winter rise in calf pneumonia cases beginning in October.

Copyright © NADIS 2004. Source: Richard Laven PhD BVetMed MRCVS

Pneumonia in cattle is a common and sometimes frustrating problem. The stress of weaning and of housing increases the susceptibility of calves to respiratory diseases and pneumonia in particular. The main signs of pneumonia in calves and older cattle are rapid shallow breathing (panting), high temperatures (over 102.5°F or 39.2°C), coughing, loss of appetite, and discharges from the nose (clear or purulent). Pneumonia has several different causes and varies in severity from mild to rapidly fatal and can be unpredictable.

What is pneumonia?

Pneumonia is an inflammation of the lungs that results from the response of the animal to an infectious agent, which can be either a virus or a bacteria, or in many cases both. Lungworm can also cause pneumonia and anthelmintic dosing history should be taken into consideration.

How is pneumonia treated?

Antibiotics have no effect on viruses (eg IBR, PI3) and will kill bacteria only if that particular strain of bacteria is susceptible to the antibiotic used. The dose of any antibiotic must be high enough and must be given long enough to kill the bacteria involved in the pneumonia. Bacteria can develop resistance to certain antibiotics making treatment ineffective. You should discuss the best approach to treatment of pneumonia with your vet. Come up with a plan to identify pneumonia cases, which treatment

to use, how many days to treat and what to do if treatment is not successful. Your vet may also prescribe treatment to reduce the inflammation or to make breathing easier. Make sure you know the withdrawal times of any treatments used.

How do I reduce the risk of pneumonia?

Reduce Stress - Minimise the stress around weaning. Introduce creep feeding at least one month before weaning. Avoid the stress of sudden ration changes. Try to avoid housing and weaning at the same time. Keep handling and transport of calves to a minimum. Dehorn and castrate calves at least one month before weaning.

Good Housing - Poor ventilation increases the risk of pneumonia and also the severity of the disease. Good ventilation is vital to remove stale, exhaled air and replenish it with clean fresh air to prevent the build up of disease organisms. Ensure there is good ventilation without being draughty. Avoid overcrowding to reduce the spread of viruses and bacteria.

Vaccination - The best way to reduce the risk of pneumonia is to vaccinate. Vaccinating 6-7 weeks before weaning or housing gives a good level of immunity and is the best form of protection. You should seek advice from your vet to first establish if a vaccination programme is required, and if so, what you need to vaccinate against.

Rheoli niwmonia mewn gwartheg




Mae niwmonia mewn gwartheg yn broblem gyffredin a all wneud i chi deimlo'n rhwystredig. Mae lloi'n fwy tueddol o ddiodef o afiechydon resbiradol a niwmonia yn benodol fel canlyniad i'r straen o gael eu diddyfnu a'u rhoi o dan do. Prif arwyddion niwmonia mewn lloi a gwartheg hŷn yw anadlu isel a chyflym (dyhefod), tymheredd uchel (dros 102.5°F neu 39.2°C), peswch, diffyg archwaeth, a'r trwyn yn rhedeg (clir neu gawnllyd). Mae sawl peth yn achosi niwmonia ac mae'n amrywio o fod yn ysgafn i fod yn angheuol a gall fod yn anrhwngwladwy.

Beth yw niwmonia?

Llid yr ysgyfaint yw niwmonia, sy'n deillio o ymateb yr anifail i gyfrwng heintus, a all fod yn firws neu'n facteriwm, neu'r ddau. Hefyd, gall llyngyr yr ysgyfaint achosi niwmonia, a dylid ystyried y dosio gwrthlyngyrol a gafwyd yn y gorffennol.

Sut mae trin niwmonia?

Nid yw gwrthfotigau'n cael unrhyw effaith ar firysau (e.e. IBR, PI3) ac ni fyddant yn lladd bacteria oni bai bod y rhywogaeth arbennig o facteriwm yn ymatebol i'r gwrthfotig a ddefnyddir. Rhaid i'r ddos o unrhyw wrthfotig fod yn ddigon cryf a rhaid ei rhoi'n ddigon hir i ladd y bacteria sy'n ymwneud â'r niwmonia. Gall bacteria ddatblygu ymwrthedd i rai gwrthfotigau, ac fel canlyniad mae triniaeth yn aneffeithiol. Dylech drafod y ffordd orau o drin niwmonia â'ch milfeddyg. Lluniwch gynllun i adnabod achosion o niwmonia, pa driniaeth i'w defnyddio, am sawl diwrnod y dylid rhoi'r driniaeth a beth ddylid ei wneud os yw'r driniaeth yn



aflwyddiannus. Gall y bydd eich milfeddyg yn cynnig triniaeth hefyd i leihau'r llid neu i wneud anadlu'n haws. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod amserau amddifadu unrhyw driniaeth a ddefnyddir.

Sut mae lleihau'r perygl o niwmonia?

Lleihau Straen - Sicrhau cyn lleied o straen ag y bo modd adeg diddyfnu. Cyflwyno didolborthiant o leiaf fis cyn diddyfnu. Osgoi'r straen o newid y dogn bwyd yn sydyn. Ceisio osgoi rhoi anifeiliaid o dan do a'u diddyfnu ar yr un pryd. Trafod a chludo lloi cyn lleied ag y bo modd. Digornio ac ysbaddu lloi o leiaf fis cyn eu diddyfnu.

Amodau Da Dan Do - Mae awyru gwael yn cynyddu'r perygl o niwmonia a difrifoldeb yr afiechyd. Mae awyru da yn hanfodol er mwyn gwaredu hen aer a gafodd ei anadlu allan a chael aer glân a ffres i atal organebau afiechydon rhag crynhoi. Gwneud yn siŵr fod yna awyru da heb ddrafft. Osgoi cadw gormod o loi gyda'i gilydd fel bod firysau a bacteria yn cael llai o gyfle i ledaenu.

Brechu - Y ffordd orau o geisio atal niwmonia yw brechu. Mae brechu lloi 6-7 wythnos cyn eu diddyfnu neu eu rhoi dan do yn rhoi imiwnedd da, a dyna'r ffordd orau o'u diogelu rhag niwmonia. Dylech geisio cyngor gan eich milfeddyg yn gyntaf i weld a oes angen brechu, ac os oes, rhag beth y mae angen brechu.